



LLONGYFARCHIADAU !

Gawn ni groesawu ein preswlydd newydd un i'r pentref. Dyma **Alex Llywelyn**, gyda'i frawd mawr **Aron**. Ganwyd Alex Llywelyn i'w rieni hynod falch, Kirsty a Gavin, ar Ionawr yr 31ain 2017.



BYRDDAU PLYG

Bu i **Fenter Siabod** brynu sawl bwrdd plyg Gopak (cyfanswm o 14 i gyd) er defnydd trigolion y gymuned. Maen nhw'n fyrddau plyg ysgafn 1830mm x 760mm ac mae croeso i unrhyw fudiad y pentref neu unrhyw un sy'n trefnu digwyddiad preifat eu llogi yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag buasem ni'n fwy na diolchgar derbyn unrhyw gyfraniad!

Os hoffech chi fenthyg y byrddau, cysylltwch gyda Bob Valintine, Ffôn Symudol: 07553296221 neu e-bost: bobandnen@btinternet.com i

fynd i Ystafelloedd Gwyddelan lle caiff y byrddau eu cadw. Bydd angen ichi gwblhau ffurflen (bydd y ffurflenni yn sownd i'r troli storio) gan nodi faint o fyrddau sydd eu hangen arnoch chi, y dyddiad benthyg a'r dyddiad dychwelyd ac ati.

Bydd angen ichi ysgrifennu rhif cyswllt, ac wrth gwrs os bydd unrhyw ddifrod, bydd gofyn ichi roi gwybod yn syth bin.



COFIWCHI! gadw **MEHEFIN Y 24ain** yn rhydd

ar gyfer CARNIFAL DOLWYDDELAN

Mae croeso mawr i unrhyw wirfoddolwyr newydd gynnig help llaw, cysylltwch gyda Ali ar ali.valintine@googlemail.com

